

Eich cyf / Your ref:

Gofynner am / Please ask for:

Miss Isabelle Mariani

Fy nghyf / My ref:

Llinell Uniongyrchol / Direct
Line:

01267 246617

Dyddiad/Date: **08/01/2020**

E-bost Uniongyrchol / Direct
Email:

IMariani@sirgar.gov.uk
IMariani@carmarthenshire.gov.uk

Annwyl Ymgynghorai,

**Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir –
Cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Llangynnwr**

Ddydd Mercher, 8 Ionawr 2020, cymeradwyodd Cyngor Sir Caerfyrddin y cynnig canlynol:

O 1 Medi 2020, fod natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llangynnwr yn newid i gyfrwng y Gymraeg, gyda darpariaeth Dwy Ffrwd yn parhau o Gyfnod Allweddol 2.

Gwrthwynebiadau i'r cynnig- Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

Ystyriwyd y cynnig yn unol â gofynion Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a nodwyd nad oedd dim gwrthwynebiad wedi dod i law ynghylch y cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Wrth ddod i benderfyniad ar y cynnig, ystyriodd y Cyngor Sir y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellwyd yn nogfen Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018 fel a ganlyn:

Ansawdd a safonau mewn addysg

Barn yr awdurdod yw bydd y cynnig hwn yn cynnal a/neu yn gwella'r safonau addysg presennol, fel y cefnogwyd gan Estyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol.

Mae'r Cyngor Sir wedi ystyried bod y cynnig yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin i gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a'i fod yn sicrhau bod plant yn cael cyfle i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, mae'r Cyngor Sir wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael, y galw tebygol am leoedd yn y dyfodol, yn ogystal â'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae'r ysgol wedi bod yn datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser, fel sy'n ddisgwyliedig gan bob ysgol dan Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor Sir.

Ni fydd dim newid i ddisgyblion presennol yr ysgol. Bydd y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Bydd unrhyw ddisgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol ar ôl i'r cynnig gael ei roi ar waith yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, a bydd dewis o ran cyfrwng iaith yn cael ei gyflwyno yng Nghyfnod Allweddol 2.

GARETH MORGANS B Ed. M. Sc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin. SA31 3HB
Director of Education and Children's Services
Department for Education and Children,
Building 2, St. David's Park, Jobs Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire. SA31 3HB

*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu
gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg
Carmarthenshire County Council welcomes
correspondence in Welsh or English*



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Adnoddau addysg

Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae nifer o faterion wedi cael eu hystyried, yn benodol cynyddu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20 Cyngor Sir Caerfyrddin.

Cyfeirio penderfyniadau'r awdurdod lleol at Weinidogion Cymru

Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag Isabelle Mariani o'r adran hon.

Yn gywir,



Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

GARETH MORGANS B Ed. M. Sc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin. SA31 3HB
Director of Education and Children's Services
Department for Education and Children,
Building 2, St. David's Park, Jobs Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire. SA31 3HB

*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu
gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg
Carmarthenshire County Council welcomes
correspondence in Welsh or English*



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE